Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Prentisiaethau yn Gwasanaethau Teithio

Rhif y Fframwaith: FR03736 **Rhifyn:** 2 **Dyddiad:** 05/02/2016

Cytunwyd ar gynnwys y Fframwaith hwn gan People 1st ac maent wedi'i gyhoeddi.

TROSOLWG:

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r safonau a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno darpariaeth hyfforddiant Lefelau 2 a 3 o fewn y sector Teithio, Twristiaeth a Hamdden. Os cwblheir y ddarpariaeth, caiff cymhwyster wedi'i ddynodi/reoleiddio ei ddyfarnu.

Mae Prentisiaeth Lefel 2 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys ymgynghorwyr hamdden neu deithio busnes, cynghorwyr teithio, gweithredwyr archebu/sicrhau lle, cynghorwyr gwasanaethau i gwsmeriaid (diwydiant teithio) neu gynrychiolwyr mannau gwyliau dramor.

Mae Prentisiaeth Lefel 3 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys rolau uwch mewn hamdden neu uwch-ymgynghorwyr busnes, uwch-gynghorwyr gwasanaethau i gwsmeriaid/teithio, arweinwyr timau neu uwch-gynrychiolwyr mannau gwyliau.

DEILLIANNAU GORFODOL

Bydd y corff dyfarnu priodol yn gwirio sut yr asesir cyflawni'r cymwysterau hyn. Rhaid i unigolion gwblhau:

- Naill ai gymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth neu gymhwyster sy'n cyfuno'r ddwy elfen o un o'r llwybrau canlynol
- Sgiliau Hanfodol a'r Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth a nodir isod

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 2:
Llwybr 1: Gwasanaethau Teithio (Hamdden a Busnes)
Llwybr 2: Gwasanaethau Teithio (Gweithredwyr Teithiau - Staff Maes)

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 3:
Llwybr 1: Gwasanaethau Teithio (Hamdden a Busnes)
Llwybr 2: Gwasanaethau Teithio (Gweithredwyr Teithiau - y Brif Swyddfa)
Llwybr 3: Gwasanaethau Teithio (Gweithredwyr Teithiau - Staff Maes)

Sgiliau Hanfodol Cymru:
Lefel 2 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 1, Lefel Gyfathrebu 1, Lefel TGCh 1

Lefel 3 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 2, Lefel Gyfathrebu 2, Lefel TGCh 2

Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a'r broses sefydlu sylfaenol sy'n ymwneud â Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth yn y gweithle yn ddewisol.

RHAGOR O WYBODAETH

I weld cynnwys y Fframwaith hwn a'r fanyleb lawn, cysylltwch: People 1st.